



Cartrefi
Cymunedol
Cymru

Community
Housing
Cymru

Pontio'r bwlch

Sut mae cymdeithasau tai yn
cefnogi tenantiaid drwy'r
argyfwng parhaus mewn costau
byw

Hydref 2026




Cipolwg ar y stori

Mae'r argyfwng costau byw wedi newid.


Mae'r argyfwng parhaus mewn costau byw yn golygu nad oes gan aelwydydd incwm isel fawr neu ddim gwydnwch ariannol wrth i gyllidebau barhau dan bwysau difrifol.

Mae pobl sy'n rhentu tai cymdeithasol yn fwy tebygol o wynebu'r pwysau ariannol hyn, gan fod ganddynt incymau aelwyd is. Mae cymdeithasau tai yn rhoi clustog pwysig rhag caledi ariannol gan eu bod yn codi rhenti is, mwy diogel, gan helpu i ddiogelu aelwydydd rhag rhai o'r pwysau a brofir mewn rhannau eraill o'r farchnad tai.

Mae cymdeithasau tai yn gweld galw cynyddol gan aelwydydd mewn argyfwng. Maent yn helpu tenantiaid i dalu am gostau hanfodol a rheoli dyledion, gan gweithio i atal mwy o galedi drwy gynyddu incymau, meithrin sgiliau, gwella cyfleoedd cyflogaeth a gwydnwch ariannol. Mae cartrefi ansawdd uchel ac effeithiol o ran ynni hefyd yn helpu i ostwng biliau ynni tenantiaid tra'n gostwng allyriadau.



Ym mis Awst 2026, cynhaliodd Cartrefi Cymunedol Cymru arolwg o cymdeithas tai ar sut maent yn cefnogi eu tenantiaid drwy'r argyfwng costau byw, gan gasglu ymatebion gan y 20 cymdeithas tai hynny.



Ni all landlordiaid cymdeithasol ar ben eu hunain wrthbwysu yn llawn y pwysau ehangach ar incwm aelwydydd yn deillio o gostau uchel bwyd ac ynni, dyledion a chyflogau isel, a mae pryder cynyddol am lesiant tenantiaid cyn y gaeaf.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel ei gilydd gryfhau incwm aelwydydd a'r rhwyd ddiogelwch cymdeithasol, yn cynnwys gwelliannau i'r Credyd Cynhwysol, y Gronfa Cymorth Dewisol a Thaliadau Tai Dewisol.

Mae'n rhaid i hyn fynd law yn llaw gyda buddsoddiad parhaus mewn tai cymdeithasol fel **gwasanaeth cyhoeddus ataliol**.

1. Yr argyfwng sy'n esblygu a chaledi cynyddol


Esblygiad yr argyfwng costau byw

Mae'r cynnydd cyflym a welsom ddechrau 2022 wedi arafu, ond mae costau'n parhau i fod yn llawer uwch nag o'r blaen. I lawer, mae cost bwyd ac ynni yn parhau yn frwydr ddyddiol, tra bod blynyddoedd o bwysau ariannol cyson wedi gadael teuluoedd heb fawr neu ddim gwydnwch ariannol i ymdopi gyda chostau annisgwyl.

Caiff y pwysau hyn eu gwaethygu gan gyfnod hir o dwf gwan mewn incwm aelwydydd. Fel y dangosodd y [Sefydliad Astudiaethau Cyllidol](#), dim ond gan 0.7% y flwyddyn mewn gwir dermau y cynyddodd canolrif incwm aelwydydd yng Nghymru ers dechrau'r 2010au. Gadawodd hyn lawer o oedolion yn brin o wydnwch ariannol i ymdopi gyda'r cynnydd cyson mewn costau byw hanfodol.

Mae cymdeithasau tai yn gweithio'n galed i ddiogelu preswylwyr rhag gwaethaf hyn, gan ddod i'r adwy fel rhwyd ddiogelwch hanfodol ar gyfer y rhai mewn argyfwng. Maent yn gweld galw cynyddol gan aelwydydd heb fawr iawn o allu ar ôl i ymdopi â phwysau pellach.

Esblygiad yr Argyfwng Costau Byw



Mae'r argyfwng wedi newid o fod yn un a gaiff ei yrru yn llwyr gan chwyddiant i fod yn frwydr ddyfnach, barhaus i ymdopi gydag incwm dau bwysau a sylfaen costau parhaol uwch.

Mae cymdeithasau tai yn gweithio'n galed i ddiogelu preswylwyr rhag gwaethaf hyn, gan ddod i'r adwy fel rhwyd ddiogelwch hanfodol ar gyfer y rhai mewn argyfwng. Maent yn gweld galw cynyddol gan aelwydydd heb fawr iawn o allu ar ôl i ymdopi â phwysau pellach.

Pam fod y rhai sy'n rhentu tai cymdeithasol yn parhau i ddioddef

Mae pobl sy'n rhentu tai cymdeithasol yn profi cyfraddau uwch o dlodi na phobl mewn daliadaethau eraill. Yn ôl [Sefydliad Joseph Rowntree](#), mae 4 ym mhob 10 o'r bobl sy'n rhentu tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi. Caiff hyn ei yrru yn bennaf gan incwm isel aelwydydd, gyda llawer o denantiaid hefyd yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth neu'n dibynnu ar gyflogau is, gweithio llai o oriau neu waith ansicr.

Dengys hyn rôl hanfodol tai cymdeithasol wrth ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy ar gyfer y bobl sydd â'r angen mwyaf. Mae pobl sy'n rhentu tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn anabl neu'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, a all gyfyngu cyfleoedd i gynyddu eu hincwm drwy gyflogaeth ac arwain at fwy o ddibyniaeth ar nawdd cymdeithasol. Mae tai cymdeithasol yn rhoi clustog pwysig yn erbyn y pwysau hyn.

Mae 4 ym mhob 10 o'r bobl sy'n rhentu tai cymdeithasol yn byw mewn tlodi. Caiff hyn ei yrru yn bennaf gan incwm isel aelwydydd

Mae rhenti cymdeithasol yng Nghymru yn is, gyda mwy o sicrwydd ac yn haws i'w rhagweld na rhenti yn y sector preifat, gan roi haen bwysig o ddiogeliad ar gyfer aelwydydd ar incwm isel. Canfu [Pyls Blynnyddol 2025 TPAS Cymru](#) fod rhenti fforddiadwy yn llai tebyg o fod y prif gonsyrn i'r rhai sy'n rhentu tai cymdeithasol na rhentwyr preifat. Yn hytrach, mae llawer o aelwydydd yn ei chael yn anodd talu am eu rhent ynghyd â chostau uchel parhaus am fwyd, ynni a chostau hanfodol eraill.



Fel canlyniad, ychydig iawn o hyblygrwydd sydd yng nghyllidebau aelwydydd. Canfu [Ciplun o Dlodi](#) Sefydliad Bevan ym mis Tachwedd 2025 fod 3 mewn 10 o'r bobl sy'n rhentu tai cymdeithasol wedi methu fforddio dillad hanfodol, tra bod mwy na thraean yn hwyr gydag o leiaf un bil aelwyd. Yn yr un modd, canfu ymchwil gan [y_gwasanaeth Arian a Phensiynau](#) fod bron 65% o'r rhai sy'n rhentu tai cymdeithasol yn dweud fod ganddynt lai o lesiant ariannol.

Mae 3 mewn 10 o'r bobl sy'n rhentu tai cymdeithasol wedi methu fforddio dillad hanfodol, tra bod mwy na thraean yn hwyr gydag o leiaf un bil aelwyd

Mae tai cymdeithasol yn helpu i ddiogelu pobl sydd â rhai o'r anghenion ariannol a thai mwyaf rhag mwy fyth o galedi. Fodd bynnag, ni all wrthbwysu'n llwyr incymau annigonol a chostau hanfodol cyson uchel. [Gyda Bloomberg yn rhagweld y bydd costau ynni yn codi gan 25%](#) ym mis Ionawr 2027, gan ddychwelyd i uchelfannau argyfwng prisiau nwy 2022-23, rydym angen gweithredu ar frys gan y llywodraeth i gysgodi aelwydydd sydd eisoes yn profi caledi.

Y cynnydd yng nghost hanfodion sylfaenol

Mae cyllidebau aelwydydd dan bwysau enfawr. Gwelodd 90% o gymdeithasau tai mai costau bwyd ac ynni yw'r her ariannol fwyaf cyffredin sy'n wynebu tenantiaid. Soniodd hanner am renti fforddiadwy, a 40% am ddyledion.

Mae cysylltiad agos rhwng y pwysau hyn. Mae llai o hyblygrwydd mewn rhannau eraill o'r gyllideb pan fod angen mwy o incwm aelwydydd, sydd eisoes yn isel, ar gyfer bwyd ac ynni. Ni fedrir dod â deupen llinyn ynghyd. Mae tai cymdeithasol yn rhoi diogeliad pwysig, ond ni all tai fforddiadwy wneud iawn yn llawn am incymau annigonol a chostau byw parhaus o uchel.

Mae cymdeithasau tai hefyd yn gweld aelwydydd gyda lefelau cynyddol o ddyledion a llai o wydnwch ariannol. Mewn rhai achosion, mae aelwydydd yn defnyddio cynnyrch credyd fel Klarna a Clearpay i dalu am anghenion sylfaenol, yn cynnwys bwyd.

Gwelodd 90% o gymdeithasau tai mai costau bwyd ac ynni yw'r her ariannol fwyaf cyffredin sy'n wynebu tenantiaid.

Gall caledi ariannol hefyd effeithio ar gyflwr cartrefi pobl. Pan na all tenantiaid fforddio twymo eu cartrefi yn ddigonol, mae hyn yn creu amodau lle mae cyddwysiad, lleithder a llwydni yn fwy tebygol o ddatblygu neu waethygu.

Er y bydd cynllun Llywodraeth y DU i dynnu Treth ar Werth o filiau trydan domestig dros dro o fis Hydref 2026 o beth cymorth, mae'r amcangyfrif o'r arbediad cyfartalog o ddim ond £45 y flwyddyn yn gynnwl yng nghydestun costau ynni uchel parhaus.

Mae caledi ariannol felly yn dod yn lletach a dyfnach. Mae'r rhai sydd eisoes yn fregus i sioc ariannol yn parhau dan bwysau difrifol, tra bod aelwydydd a all fod wedi ymdopi'n flaenorol heb gymorth yn gynyddol yn cael eu tynnu i anawsterau ariannol.

“Rydym yn parhau i weld tenantiaid yn ein cymunedau sy'n gorfod dewis rhwng twymo eu cartrefi neu fwyta. Gwnawn ein gorau i gefnogi tenantiaid gyda thalebau tanwydd a banc bwyd lle gallwn a rydym hefyd yn dosbarthu pecynnau cynhesu'r gaeaf yn y misoedd oerach i geisio cadw ein tenantiaid yn ddiogel ac iach. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yng nghost cyfleustodau a bwyd a chostau byw cyffredinol wedi sefydlogi ac mae tenantiaid a'u teuluoedd yn parhau i gael anawsterau gydag anghenion sylfaenol.”

Gweithiwr cymorth i denantiaid




“Mae'r diffyg gwydnwch ariannol yn effeithio ar iechyd ein cwsmeriaid a chyflwr eu cartrefi. Mae heriau costau byw yn ymestyn i fwy a mwy o deuluoedd sydd mewn gwaith sydd hyd yma wedi bod a rhywfaint o wydnwch ariannol sydd bellach yn erydu'n gynyddol ac yn llechwraidd. Rydym yn gweld cynnydd mewn aelwydydd sy'n defnyddio credyd fel Klarna a Clearpay i dalu am anghenion sylfaenol tebyg i fwyd.”

Gweithiwr cymorth i denantiaid

Pwysau cynyddol ar denantiaid

Mae cymdeithasau tai yn gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd angen cymorth a chynnydd sylweddol yng nghymhlethdod yr angen hwnnw.

Gwelodd 80% o gymdeithasau tai alw cynyddol am gymorth ariannol yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy na hanner yn dweud ei fod wedi cynyddu'n sylweddol.



Mae pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn parhau i fod y grŵp sydd yn gofyn amlaf am gymorth, a ddynodwyd gan 70% o ymatebwyr. Roedd aelwydydd un person yn dilyn ar 65%, gydag aelwydydd un rhiant ac aelwydydd lle mae gan rywun salwch hirdymor neu anabledd ill dau yn cael eu dynodi gan 45%.

Fodd bynnag, mae cymdeithasau tai yn gweld pwysau ariannol yn cyrraedd aelwydydd a allai yn flaenorol fod wedi medru ymdopi. Fe wnaeth mwy na thraean ddynodi fod aelwydydd mewn gwaith yn grŵp sy'n gyffredin iddynt ofyn am gymorth. Gall gweithwyr ar gyflog isel wynebu caledi sylweddol tra'n parhau yn anghymwys am fudd-daliadau neu gymorth argyfwng, gan eu gadael heb fawr o opsiynau pan mae eu hamgylchiadau yn newid neu'n wynebu cost annisgwyl.

Mae cymdeithasau tai yn gweld cysylltiad clir rhwng cyflwr iechyd a gwydnwch ariannol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig mewn tai cymdeithasol oherwydd fod pobl anabl yn fwy tebygol o fyw yn y sector. Dengys data [Cyfrifiad 2021](#) fod 38% o bobl yng Nghymru y mae eu gweithgareddau dydd i ddydd yn gyfyngedig yn byw mewn cartrefi rhent cymdeithasol, o gymharu gyda 13% o bobl heb fod yn anabl.

Gall anabledd hefyd ddod â chostau ychwanegol tra'n cyfyngu gallu rhywun i weithio neu gynyddu eu hincwm. Yn ôl [Cyngor ar Bopeth](#), roedd gan 1 mewn 9 aelwyd anabl yn Lloegr a Chymru gyllideb negyddol. Mae hyn yn golygu nad oedd eu hincwm yn ddigon i dalu am gostau hanfodol eu haelwydydd.

“Mae 38% o bobl anabl yng Nghymru y mae eu gweithgareddau dyddiol yn gyfyngedig yn byw mewn tai rhent cymdeithasol, o'i gymharu â 13% o bobl nad ydynt yn anabl.”

Mae gan y pwysau ariannol yma hefyd oblygiadau sylweddol ar gyfer plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd incwm isel. Mae [Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant](#) yn cydnabod pwysigrwydd gostwng costau tai ac ynni, cynyddu incwm teuluoedd a gwella amodau tai wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Gal mynediad i dai cymdeithasol diogel, fforddiadwy ac effeithiol o ran ynni, ynghyd â chynhwysiant a chymorth ataliol, helpu i ostwng pwysau ar gyllidebau teuluoedd a chyfrannu at ymdrechion ehangach i wella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

Dywed staff cymdeithasau tai iddynt weld cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth ar bwynt argyfwng. Mae mwy o denantiaid yn awr angen cymorth dwys a pharhaus i drin anawsterau ariannol a chynnal eu tenantiaethau. Mewn llawer o achosion, mae caledi ariannol yn cydblethu gydag anawsterau iechyd meddwl, pryderon am ddiogelu, dyledion a mathau eraill o fregusrwydd.

Trivallis: Tîm Cyngor Arian

Mae cymorth parhaus gan y Tîm Cyngor Arian wedi helpu teulu i sicrhau mwy na £17,000 mewn budd-daliadau wedi eu hôl-ddyddio, cymorth ariannol parhaus a chlodiant mwy diogel ar gyfer apwyntiadau meddygol hanfodol.

Fe gamodd y tîm i mewn ar ôl i ferch 11 oed mam sengl gael diagnosis o atacsia Friedrich, a wnaeth effeithio yn gyflym ar ei gallu i symud. Yn ogystal â threfnu cymorth bwyd ar unwaith, fe wnaeth y cynghorydd herio cais a wrthodwyd am Lwfans Byw i'r Anabl, casglu tystiolaeth feddygol a gan yr ysgol, cwblhau cais i dribiwnlys a chael cymorth gan yr Aelod Seneddol lleol.

Talodd y dyfalbarhad ar ei ganfed pan newidiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei benderfyniad, gan ddyfarnu gofal ar gyfradd uwch o £114.60 yr wythnos, cyfradd symudedd estynedig o £80 yr wythnos a mwy na £9,146 mewn Lwfans Byw i'r Anabl wedi ei ôl-ddyddio. Cafodd y teulu hefyd bron £8,000 mewn Credyd Cynhwysol wedi ei ôl-ddyddio, ynghyd ag elfennau anabledd a gofal parhaus.

Mae'r dyfarniad wedi galluogi'r teulu i archebu cerbyd Motability a phrynu sgwter symudedd, gan wneud teithiau i'r ysbyty ac adsefydlu yn fwy diogel a rhoi sefydlogrwydd. Disgrifiodd y fam ei chynghorydd fel "angel gwarcheidiol" – enghraifft rymus o sut y gall eiriolaeth benderfynol roi sicrwydd ariannol, help ymarferol a gobaith.

Bylchau yn y rhwyd ddiogelwch

Cymorth mewn Argyfwng

Mae Taliadau Dewisol Tai (DHP), y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a gwasanaethau cyngor allanol yn parhau'n hanfodol ar gyfer aelwydydd sy'n profi'r caledi mwyaf difrifol. Fodd bynnag, soniodd cymdeithasau tai am grŵp cynyddol o bobl sydd mewn trafferthion ond nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf i fod yn gymwys am y cymorth hwn.

Nodwyd fod aelwydydd mewn gwaith incwm isel yn fwch neilltuol. Efallai na fedrant dalu am gostau hanfodol ond maent yn dal i fod yn anghymwys am DAF neu gymorth arall y mae prawf modd arno Mae cymdeithasau tai yn gynyddol yn defnyddio eu cronfeydd caledi a chymorth cwsmeriaid eu hunain i gefnogi aelwydydd na fyddai ganddynt fel arall unrhyw le i droi.



Mae hefyd anghysondeb sylweddol yn y cymorth sydd ar gael ledled Cymru. Soniodd cymdeithasau tai am wahaniaethau mewn cymhwyster, gwneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol, gan greu loteri cod post. Dywedwyd ei bod yn gynyddol anodd sicrhau dyfarniadau DHP, oedd weithiau'n ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd ddangos eu bod yn edrych am gartref llai hyd yn oed lle nad oes eiddo addas ar gael.

Roedd adborth ar DAF yn fwy cymysg. Roedd cymdeithasau tai yn croesawu gwelliannau tebyg i ailgyflwyno cymorth ar gyfer cwcerau gan ddweud y gall y gronfa weithio'n dda ar gyfer y rhai sy'n gymwys. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar gymhwyster, terfynau ar Daliadau Cymorth Argyfwng ac anawsterau yn cael eitemau hanfodol newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri yn parhau i adael bylchau.

System ehangach nawdd cymdeithasol

Mae'r anghysondeb hwn hefyd yn ymestyn i wasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Soniodd cymdeithasau tai am rwystredigaeth nad yw yr achosion y maent yn eu hatgyfeirio bob amser yn cael digon o bwysau, er y berthynas agos ac yn aml hirhoedlog sydd ganddynt gyda thenantiaid. Byddai mwy o gydnabyddiaeth i gymdeithasau tai fel partneriaid ataliad hanfodol yn helpu i sicrhau fod eu gwybodaeth o amgylchiadau tenantiaid yn llywio penderfyniadau am anghenion cymorth.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r system budd-daliadau yng Nghymru yn gyfle pwysig i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn. Nod Siarter Budd-daliadau Cymru yw symleiddio mynediad i gymorth ariannol a ddatganolwyd, gwella cysondeb ar draws awdurdodau lleol a sicrhau y gall pobl gael mynediad i'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo heb orfod rhoi'r un wybodaeth dro ar ôl tro. Mae profiadau cymdeithasau tai yn cadarnhau pwysigrwydd y gwaith hwn, yn arbennig ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol lluosog neu sy'n ei chael yn anodd i ganfod eu ffordd o amgylch prosesau ymgeisio cymhleth.



ClwydAlyn

Mae newidiadau o fewn y system budd-daliadau hefyd yn ychwanegu mwy o bwysau i rai aelwydydd. Mae'r symud o fudd-daliadau gwaddol i'r Credyd Cynhwysol, newidiadau mewn amgylchiadau a pholisïau tebyg i'r cap ar fudd-daliadau a'r dreth ystafelloedd gwely yn creu anhawster ariannol.

Mae'r dreth ystafelloedd gwely yn parhau i effeithio ar lawer o aelwydydd ond mewn argyfwng tai, nid oes digon o gartrefi llai i symud iddynt.

Ar gyfer rhai aelwydydd, nid yw symud yn opsiwn addas neu realistig o gwbl. Gall hyn fod yn arbennig o anodd mewn ardaloedd gwledig lle efallai nad oes unrhyw eiddo arall addas ar gael.


Codi: Cymorth tai dwys

Mae gan Janet* heriau iechyd a llesiant hirdymor sy'n effeithio ar ei gwaith a'i sefydlogrwydd ariannol. Mae'n dibynnu ar y Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai i gael dau ben llinyn ynghyd.

Mae Janet wedi byw yn ei chartref pedair ystafell wely am fwy na dau ddegawd ond daeth yn anodd cynnal hyn mewn blynyddoedd diweddar. Pan symudodd ei merch allan ac y dechreuodd ei mab weithio, cafodd Janet ei tharo gan y "Dreth Ystafelloedd Gwely", gostyngiad yn ei budd-daliadau oherwydd yr ystyrid fod ei chartref yn fwy nag oedd ei angen. Cyn hir, roedd yn wynebu ôl-ddyledion rhent cynyddol o dros £4,000.

Gyda chymorth Codi, gallodd Janet symud i gartref mwy hylaw yn agosach at aelodau hŷn o'i theulu, gan olygu nad oedd yn rhaid iddi dalu'r Dreth Ystafelloedd Gwely. Yn ogystal â'i helpu i symud i gartref llai, fe wnaeth Codi ei helpu i sicrhau grant o'r Gronfa Atal Digartrefedd i ddileu ei hól-ddyledion rhent, ei chynorthwyo i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) uwch i wneud costau byw yn fwy fforddiadwy yn yr hirdymor a'i helpu i gael eitemau hanfodol ar gyfer ei chartref newydd.

*Enw ffug yw Janet; roedd y tenant eisiau aros yn ddienw.



Pontio'r bwlch

Mae cymdeithasau tai yn ymateb i galedi ariannol mewn llawer o ffyrdd. Maent yn rhoi cymorth ar unwaith i aelwydydd sy'n ei chael yn anodd talu am gostau hanfodol, helpu i atal anawsterau rhag gwaethygu drwy wasanaethau cynhwysiant ariannol a chynnal tenantiaethau a buddsoddi mewn cartrefi a chymorth sy'n cryfhau gwydnwch ariannol hirdymor.

Mae'r cyfuniad hwn o ymateb argyfwng ac atal yn ganolog i gyfraniad tai cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi.

Lliniaru caledi ariannol

Mae cymdeithasau tai yn rhoi cymorth yn amrywio o gyngor dechreuol ac atgyfeiriadau i waith dwys ar gynhwysiant ariannol a chynnal tenantiaethau.

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, roedd 2021 cymdeithas tai wedi cefnogi 5,380 tenant a'u helpu i gynyddu eu hincwm gan fwy na £6.8 miliwn.

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, roedd 2021 cymdeithas tai wedi cefnogi 5,380 tenant a'u helpu i gynyddu eu hincwm gan fwy na £6.8 miliwn.

Drwy helpu tenantiaid i gael mynediad i fudd-daliadau, grantiau a thaliadau dewisol eraill, mae'r gwasanaethau hyn yn gwella gallu aelwydydd i ateb costau hanfodol, gostwng dibyniaeth ar gymorth argyfwng a chryfhau cynaliadwyedd tenantiaethau.

Mae hyn yn cynnwys cyngor ar lesiant a budd-daliadau, cymorth gyda dyledion, cyllid caledi, cymorth gyda bwyd a thanwydd, eitemau aelwyd hanfodol, cyngor ar ynni a help i gael mynediad i wasanaethau allanol. Mae 81% o gymdeithasau tai yn cynnig rhyw fath o gronfa caledi, gyda mwy na £1.07 miliwn ar gael i denantiaid yn 2026/27.

Esboniodd un gymdeithas sut mae buddsoddiad mewn hyfforddiant staff, partneriaethau a llwybrau atgyfeirio wedi ei galluogi i ymestyn cyrraedd ei chyllid ei hun:

**“Fe wnaeth pob £1 o’r gronfa caledi fewnol gynhyrchu £3.73
ychwanegol o gymorth caledi allanol.”**

Mae cymdeithasau tai eisiau ymyrryd yn gynnar, atal caledi rhag gwaethygu a helpu tenantiaid i gynyddu gwydnwch ariannol tymor hirach. Fodd bynnag, mae maint a chymhlethdod yr angen cyfredol yn golygu fod gwasanaethau yn gynyddol yn gweithredu yn ymatebol, gan ymateb i argyfyngau sydd ar fin digwydd.

**"Dywedodd 74% o weithwyr fod pwysau allanol yn
cael effaith negyddol ar eu hiechyd a llesiant
meddwl."**

Mae hyn hefyd yn anodd ar staff. Mae llawer o achosion angen cymorth parhaus ac nid ydynt byth yn teimlo eu bod wedi eu datrys yn llawn, gan adael timau rheng flaen yn dod i gyswllt yn ddyddiol gyda chaledi ariannol gyda llai o opsiynau ar gael i helpu.

Mae’r pryderon hyn yn adlewyrchu [ymchwil CHI Cymru](#), a ganfu fod 74% o weithwyr proffesiynol tai yn dweud fod pwysau allanol yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a llesiant meddwl. Mae cymdeithasau tai yn rhoi cymorth llesiant ychwanegol yn ei le, ond mae pryder cynyddol os yw’r pwysau presennol ar staff a gwasanaethau yn gynaliadwy.



Clwyd Alyn: Well Fed

Gan weithio gyda Well-Fed sy'n darparu prydau iach a maethlon am bris rhesymol a gyda'i ganolfan yng ngogledd Cymru, mae ClwydAlyn yn cefnogi preswylwyr i ddewis prydau iach sy'n gyfeillgar i'r teulu a'r gyllideb.

Bu ClwydAlyn yn gweithio'n ddiweddar gyda Well-Fed i ehangu'r llwybrau dosbarthu ar gyfer ei siopau symudol; cerbydau sy'n teithio ar draws y rhanbarth ac yn cynnig eitemau o fwydydd hanfodol, prydau parod iach a phecynnau prydau 'parod i goginio', gyda chostau o £4.50 am becyn pryd sy'n bwydo teulu o bedwar.

Fe wnaeth ClwydAlyn hefyd gynorthwyo Well-Fed i ariannu'r locer oergell bwyd cyntaf yn y Gogledd, lle medrir casglu amgennau 24/7 drwy'r dydd a'r nos yn hytrach na bwyd cyflym neu brydau i fynd.



Clwyd Alyn a Well-Fed

Er yr heriau hyn, cafodd cymorth rheng-flaen ei ddiogelu i raddau helaeth, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae cymdeithasau tai yn ei roi ar y gwaith hwn a'r lefel barhaus o alw.

- Dywedodd 88% o gymdeithasau tai fod eu cyllid caledi wedi cynyddu neu barhau yn sefydlog.
- Dywedodd 85% fod galluedd eu gwasanaethau cymorth tenantiaid wedi cynyddu neu aros yr un fath.



Tîm Cymorth Ariannol Cartrefi Conwy

Gyda'r gaeaf yn agosáu, disgwylir i'r pwysau gynyddu. Mae llawer o deuluoedd eisoes yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng twymo eu cartrefi a rhoi bwyd ar y bwrdd. Dywedodd 95% o gymdeithasau tai wrthym eu bod yn bryderus am wydnwch ariannol tenantiaid cyn misoedd y gaeaf.

Ni all cymdeithasau tai barhau i ymdopi am gyfnod di-ben-draw â chynnydd mewn galw. Mae'n hanfodol cryfhau incwm aelwydydd a'r rhwyd ddiogelwch ehangach i ostwng nifer y bobl sy'n cyrraedd pwynt argyfwng.

Dywedodd 95% o gymdeithasau tai wrthym eu bod yn bryderus am wydnwch ariannol tenantiaid cyn misoedd y gaeaf.

Tai cymdeithasol yw seilwaith ataliol Cymru

Aiff cyfraniad cymdeithasau tai tu hwnt i gymorth argyfwng. Gall buddsoddiad mewn tai cymdeithasol fynd i'r afael â phwysau ariannol yn ei ffynhonnell drwy ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy sy'n rhatach i'w twymo a'u rhedeg a byw'n dda ynddynt.

Cynhyrchu ynni ac effeithiolrwydd ynni

Caiff cartrefi cymdeithasol newydd eu hadeiladu i safonau uchel o ran effeithiolrwydd ynni, ac mae cymdeithasau tai yn cynnal rhaglenni ôl-osod graddfa fawr i wella perfformiad cartrefi presennol. Mae hyn yn cynnwys mesurau fel paneli solar ffotofoltaidd, insiwleiddio, storfa batri, uwchraddio systemau twymo a dŵr poeth a gwelliannau ehangach i ffabrig cartrefi.



Cartrefi Wales and West

Dywedodd 90% o gymdeithasau tai fod gwelliannau effeithiolrwydd ynni eisoes yn helpu tenantiaid i ymdopi â'r cynnydd yng nghostau aelwydydd. Roedd hyn yn cynnwys 70% a ddywedodd fod peth gwahaniaeth cadarnhaol a 20% yn dweud fod gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol.

Mae tystiolaeth gynyddol y gall buddsoddiad mewn effeithiolrwydd ynni ostwng costau ynni aelwydydd ac yn ei dro gryfhau gwytnwch ariannol. Dengys astudiaethau achos cymdeithasau tai y gall mesurau fel paneli solar ffotofoltaidd, storfa batris ac uwchraddio gwresogi ostwng dibyniaeth ar drydan grid yn sylweddol.

Mae cymdeithasau tai yn addasu eu gwasanaethau mewn ymateb. Mae rhai wedi cyflwyno cynghorwyr ynni penodol i helpu tenantiaid i drin biliau a dyledion a deall technolegau newydd a osodwyd yn eu cartrefi. Mae un gymdeithas yn treialu swyddog cymorth dwys yn benodol i weithio gyda thenantiaid sydd yn yr amgylchiadau mwyaf cymhleth.

Dengys hyn sut y gall buddsoddi mewn tai cymdeithasol ostwng pa mor agored yw aelwydydd i gostau anwadal ynni drwy fuddsoddiad yn ansawdd ac effeithiolrwydd ynni cartrefi, gan lacio pwysau ar gyllidebau aelwydydd a darparu lleoedd cynhesach, iachach a mwy cysurus i fyw ynddynt.

Mae tai cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd da felly yn rhan hanfodol o'r rhwyd ddiogelwch ariannol. Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn golygu buddsoddi yn seilwaith ataliol Cymru.

**Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn golygu
buddsoddi yn seilwaith ataliol Cymru.**

Bron Afon: Gostwng costau ynni drwy ôl-osod

Mae Bron Afon wedi defnyddio'r Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio cartrefi presennol, gan gyfuno gwell insiwleiddiad, gwresogi trydan foltedd isel, paneli solar a storfa batri i ostwng y galw am ynni a biliau aelwydydd.

Ni fedrai preswylwyr yn byw mewn dau gartref a gafodd ôl-osod dwfn yn Oakfield, Cwmbrân, fod yn hapusach. Roedd un o'r cwsmeriaid wedi symud o gartref tair ystafell wely o faint tebyg ar rent preifat gyda'i dau o blant. Roedd y cwsmer wedi bod yn talu tua £70.00 y mis am nwy a thrydan ond yn y cartref wedi ei ôl-osod, mae'r biliau trydan misol yn awr yn ddim ond £16.00, a'r tal sefydlog yw'r rhan fwyaf o hynny.

Dywedodd y cwsmer:

“Mae'r biliau ynni yn bendant yn is yn fy nghartref newydd. O fis Gorffennaf i fis Awst, roedd fy mil yn £16.26 yn cynnwys y tâl sefydlog, felly roedd cost y trydan ei hun yn £1.26. Rwy'n credu fod y system yn wych. Mae wedi arbed llwyth o arian i fi, mae'n rhwydd ei defnyddio ac wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o ynni.”

Meithrin gwydnwch ariannol drwy gyflogaeth a sgiliau

Mae cymdeithasau tai yn helpu i adeiladu gwydnwch ariannol tymor hirach drwy gefnogi tenantiaid a'u cymunedau ehangach i gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli. Mae'r gwasanaethau hyn yn cydnabod fod llesiant ariannol yn fwy na dim ond ymateb i galedi uniongyrchol, ond ei fod hefyd yn ymwneud â helpu pobl i feithrin dibyniaeth a chyfleoedd i gynyddu eu hincwm, datblygu eu sgiliau a goresgyn rhwystrau i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r cymorth hwn yn amrywio o ysgrifennu CV, ceisiadau am swydd a pharatoi am gyfweiliadau i hyfforddiant gydag achrediad, trwyddedau proffesiynol, sgiliau digidol a meithrin hyder. Mae cymdeithasau tai hefyd yn helpu pobl i oresgyn costau ymarferol symud i waith, yn cynnwys teithio, dillad addas ac offer.



Mae partneriaethau gyda chontractwyr a chyflogwyr yn creu llwybrau i brentisiaethau, profiad gwaith a chyflogaeth. Nid yw'r cymorth hwn yn dod i ben o reidrwydd pan mae rhywun yn dod o hyd i swydd, gyda rhai cymdeithasau tai yn parhau i roi cymorth yn y gwaith i helpu pobl i gynnal cyflogaeth.

Ar gyfer rhai tenantiaid, gall ymyriadau cymharol fach wneud y gwahaniaeth rhwng medru manteisio ar gyfle a cholli allan.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos sut y gall cymorth dwys yn canolbwyntio ar yr unigolyn drosi yn gynnydd mewn incwm aelwyd, yn ogystal â mwy o hyder, annibyniaeth a sicrwydd ariannol.

Mae gan y gwaith hwn fanteision tu hwnt i ganlyniadau cyflogaeth unigol. Drwy gynyddu incwm, hyder ac annibyniaeth, gall rhaglenni cyflogaeth a sgiliau helpu i gynnal tenantiaethau, gwella llesiant a gostwng y risg y bydd aelwydydd yn wynebu argyfwng ariannol. Gallant hefyd gefnogi cyflogwyr lleol i ateb anghenion sgiliau, cadw mwy o incwm yn cylchredeg o fewn cymunedau a chyfrannu at adfywio economaidd ehangach.

Grŵp Cynefin: Grant Camau i Gyflogaeth

Mae Grant Camau i Gyflogaeth Grŵp Cynefin yn helpu i gefnogi tenantiaid i waith neu i fod yn nes at gael gwaith. Cafodd Mark* grant i brynu siwt, esgidiau addas a chostau teithio i fynd i gyfweliad.

“Aeth fy nghyfweliad cyntaf yn dda; roeddwn yn teimlo’n llawer mwy hyderus yn mynd i’r cyfweliad yn fy nillad newydd. Hwn oedd y cyfweliad cyntaf i mi ei gael ers blynnyddoedd ac er na chefais y swydd, roedd yn brofiad da ac fe wnaeth fy helpu i baratoi ar gyfer y cyfweliad nesaf.”

Roedd yn llwyddiannus yn ei ail gyfweliad ac mae wedi cael gwaith fel ‘Cynghorydd Budd-daliadau ac Ynni’ gyda’r Gwasanaeth Cyngor Arian ar gyfer Cyngor Ar Bopeth yn Ninbych.

“Rwy’n ddiolchgar iawn i Grŵp Cynefin am fy nghynorthwyo ar fy nhaith i gyflogaeth. Onibai am y grant, byddwn wedi teimlo nad oeddwn wedi gwisgo’n iawn a heb baratoi ar gyfer cyfweliad ac fe wnaeth wir helpu i gynyddu fy hyder.”





United Welsh: Gwasanaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae United Welsh yn darparu gwasanaeth cyflogaeth a hyfforddiant neilltuol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer tenantiaid. Mae Mentor Cyflogadwyedd a Sgiliau yn gweithio gyda phob person i ddynodi eu nodau a goresgyn rhwystrau i gyflogaeth, hyfforddiant neu wirfoddoli. Mae cefnogaeth yn cynnwys hyfforddiant gydag achrediad, trwyddedau proffesiynol, cymorth gyda CVs a cheisiadau, hyfforddi am gyfweiliadau a help gyda chostau dechreuol mynd i waith.



Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda chontractwyr a phartneriaid i greu cyfleoedd cyflogaeth, prentisiaethau a phrofiad gwaith. Yn ystod 2025/26, fe gefnogodd 21 tenant i gyflogaeth, helpu i ddileu 186 rhwystr i waith a sicrhau 191 canlyniad hyfforddiant.

Grŵp Tai Cadarn: Gwireddu eich Potensial

Mae Gwireddu eich Potensial yn darparu cymorth rhad ac am ddim sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli i denantiaid Cadarn a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i oresgyn rhwystrau tebyg i iechyd meddwl gwaeth, diffyg hyder, cymwysterau cyfyngedig, cyfrifoldebau gofalu, caledi ariannol ac allgau digidol. Mae cefnogaeth yn amrywio o hyfforddiant unigol a gydag achrediad i geisiadau am swydd, paratoi am gyfweiliadau, paru cyflogwyr a mentora parhaus mewn gwaith.



Yn ystod 2025/26, rhoddodd y gwasanaeth gymorth i 35 o bobl i ganfod gwaith, gan ysgogi amcangyfrif o £666,988 mewn incwm blyneddol ychwanegol. Fe wnaeth hefyd gyflenwi 460 sesiwn cyflogadwyedd a chefnogi preswylwyr i ennill 42 cymhwyster gydag achrediad, gan helpu i gryfhau gwytnwch ariannol, llesiant a thenantiaethau cynaliadwy.

Adra: **Academi Adra**

Mae Academi Adra, a sefydlwyd ym mis Chwefror 2021 i roi cyfleoedd gwirfoddoli, yn rhaglen cyflogaeth a sgiliau flaenllaw sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i denantiaid a phobl leol. Bu'r ffocws yn bennaf ar ddatblygu a chyflwyno cyrsiau seiliedig ar adeiladu, gyda chysiau arall yn ymwneud â chefnogi pobl yn ogystal â gwasanaethau cwsmeriaid, sgiliau gweinyddu, cynnal a chadw tiroedd a chyflwyniad i dai.

Academi Adra mewn rhifau:

- 239 unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant a/neu brofiad gwaith di-dâl
- 37 rhaglen wedi'u cyflwyno
- 49 o unigolion wedi cwblhau lleolad gwaith ar dâl
- 36 wedi symud i gyflogaeth neu brentisiaethau
- 30 sefydliad partner wedi cefnogi'r rhaglen
- 10 wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan Adra

Grŵp Codi: **Llwybr Gyrfaedd Gwyrdd**

Caiff Llwybr Gyrfaedd Gwyrdd pum-mlynedd Codi ei gyflenwi gyda phartneriaid ar draws Casnewydd ac Abertawe, gan greu llwybrau i gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli o fewn yr economi werdd.

Yn ei flwyddyn gyntaf, fe wnaeth y rhaglen:

- gyrraedd **831 o bobl ifanc**;
- darparu cymorth hyfforddi i **110 o bobl ifanc**;
- cefnogi **83 o bobl i wirfoddoli** gan gyflenwi mwy na **3,000 o oriau gwirfoddoli**; a
- chefnogi **11 o bobl i gyflogaeth**.

Mae gan y rhaglen ffocws neilltuol ar bobl ifanc a gaiff eu tangynrychioli yn y farchnad lafur, gan ehangu mynediad i gyfleoedd y dyfodol tra'n datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pontio i economi wyrddach.



Beth sydd angen iddo newid

Mae cymdeithasau tai yn rhoi cymorth hollbwysig ond ni fedrant gymryd lle system nawdd cymdeithasol ddigonol. Maent yn helpu aelwydydd i dalu am gostau hanfodol, cynnal eu tenantiaethau ac osgoi argyfwng dyfnach, ond mae'r galw am gymorth yn cynyddu ac yn anodd ymdopi ag ef.

Dengys canfyddiadau'r adroddiad hwn fod angen gweithredu mewn dau faes:

- **cryfhau incwm aelwydydd a chymorth argyfwng ar gyfer pobl sy'n wynebu caledi uniongyrchol;**
- **parhau i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol a chyfleoedd sy'n meithrin gwydnwch ariannol tymor hirach.**

Mae Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymïadau i wella'r system budd-daliadau yng Nghymru, darparu o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd erbyn 2030 ac ehangu ôl-osod. Croesewir yr ymrwymïadau hyn a maent yn rhoi cyfle i gryfhau cyfraniad tai cymdeithasol i ostwng costau aelwydydd ac atal caledi ariannol.

Yn yr un modd, mae'r cyhoeddiad ym mis Medi o £4.8 miliwn mewn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer cymorth bwyd argyfwng ac atal tlodi yn ymateb hanfodol i bwysau uniongyrchol. Fodd bynnag, dengys profiadau rheng flaen cymdeithasau tai fod yn rhaid i gyllid argyfwng tymor byr fynd law yn llaw gyda buddsoddiad parhaus mewn cymorth ataliol.



Helpu pobl sy'n wynebu caledi **yn awr**

Mae pobl angen [incwm digonol i dalu am eu costau hanfodol](#) a chael mynediad i gymorth effeithlon pan maent yn profi anhawster ariannol.

1. Sicrhau fod Credyd Cynhwysol yn ddigonol i dalu am gostau byw hanfodol

I ormod o bobl, mae incymau aelwydydd yn annigonol i dalu am gost bwyd, ynni a hanfodion eraill. Rydym yn cefnogi ymgyrch [Guarantee Our Essentials](#) a'i galwad am isafswm lefel a ddiogelir o Gredyd Cynhwysol sy'n sicrhau y gall pobl fforddio'r hanfodion.

2. Cryfhau a gwella cymorth ariannol ac argyfwng

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei hariannu'n ddigonol a gwella ei hygyrchedd a'i hyblygrwydd, yn cynnwys cymorth ar gyfer aelwydydd y tu allan i'r meini prawf presennol ar gymhwyster sy'n ei chael yn anodd talu am gostau hanfodol.

Dylai hefyd weithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff Taliadau Tai Dewisol eu hariannu'n ddigonol a'u gweinyddu mewn modd mwy cyson ar draws Cymru, gan ostwng gwahaniaethau daearyddol yn y cymorth sydd ar gael i aelwydydd sydd mewn anhawster ariannol.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyflymu cynnydd tuag at system wedi ei symleiddio ar gyfer budd-daliadau yng Nghymru, gan ei gwneud yn rhwyddach i aelwydydd gael mynediad i bopeth y mae ganddynt hawl iddo drwy brosesau cais symlach, mwy o gysondeb a gwell cydlynw rhwng gwasanaethau.

3. Sicrhau cymorth mwy effeithlon i aelwydydd sydd mewn anawsterau gyda chostau ynni.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau cymorth ystyrlon gyda dyledion ynni, help dyfnach wedi ei dargedu gyda biliau a chyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer yr aelwydydd sydd yn yr anhawster ariannol mwyaf, ynghyd â chyngor hygyrch ar ynni.

Meithrin gwytnwch ariannol tymor hirach

Mae buddsoddi mewn cartrefi fforddiadwy, effeithiol o ran ynni a rhaglenni cyflogaeth a sgiliau yn mynd i'r afael ag achosion gwraidd caledi ariannol.

4. Dylai Llywodraeth Cymru osod cynllun hirdymor ar gyfer tai sy'n cydnabod fod tai cymdeithasol yn seilwaith ataliol hanfodol.

Dylai cynllun hirdymor gefnogi darparu mwy o gartrefi fforddiadwy, buddsoddiad parhaus mewn cartrefi presennol a'r gwasanaethau y mae cymdeithasau tai yn eu darparu i gryfhau gwytnwch ariannol. Dylai hefyd gydnabod fod cymdeithasau tai yn bartneriaid atal hanfodol ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

5. Datblygu Strategaeth Genedlaethol ar Sgiliau Adeiladu sy'n cysylltu buddsoddiad tai gyda chyflogaeth a hyfforddiant.

Mae rhaglenni cyflogaeth cymdeithasau tai yn helpu tenantiaid i oresgyn rhwystrau i waith, cynyddu eu hincwm ac adeiladu gwydnwch ariannol tymor hirach. Dylai strategaeth genedlaethol gysylltu buddsoddiad mewn adeiladu tai newydd, ôl-osod a chartrefi presennol gyda chyfleoedd i denantiaid a chymunedau gael mynediad i brentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy. Byddai hyn yn cryfhau llwybrau i waith tra'n helpu i gadw buddion economaidd buddsoddiad tai o fewn cymunedau Cymru.



Rydym ni'n galw ar Lywodraeth i:



Sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn ddigonol i dalu am gostau byw hanfodol.



Cryfhau a gwella cymorth ariannol ac argyfwng.



Sicrhau cymorth mwy effeithlon i aelwydydd sydd mewn anawsterau gyda chostau ynni.



Cynllun hirdymor ar gyfer tai sy'n cydnabod fod tai cymdeithasol yn seilwaith ataliol hanfodol.



Datblygu Strategaeth Genedlaethol ar Sgiliau Adeiladu sy'n cysylltu buddsoddiad tai gyda chyflogaeth a hyfforddiant



**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**

**Community
Housing
Cymru**

Cwestiynau?



Hayley Eastment

Arweinydd Polisi

hayley-eastment@chcymru.org.uk



Josh Lovell

*Cynghorydd Polisi a
Materion Cyhoeddus*

josh-lovell@chcymru.org.uk